Barnardo's

CYMRU

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Hoffai Barnardo's ddiolch i'r holl blant a phobl ifanc o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru, Swydd Efrog, Llundain, Canoldir, Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin, Gogledd a De Lloegr a fu mor barod i rannu eu profiadau a'u syniadau gyda ni a hefyd yr holl staff yn y rhanbarthau, y gwledydd a'r prosiectau sydd wedi ein helpu i gyflawni hyn.

Mae Barnardo's yn nodi canmlwyddiant marwolaeth Dr Barnardo trwy ddathlu'r gwahaniaeth y mae'r elusen yn dal i'w wneud i fywydau cannoedd o filoedd o blant yn y DU.

Er nad ydym bellach yn rhedeg cartrefi plant amddifad fel y gwnaem yn oes Fictoria – rydym yn parhau i amddiffyn, meithrin a rhoi cyfleoedd i blant trwy gyfrwng 361 o brosiectau arbenigol, a hynny mewn cymunedau lleol ar draws y DU.

Cyflwyniad

Mae plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn cyfrif am oddeutu chwarter poblogaeth y DU. Fodd bynnag, nid oes ganddynt lais o gwbl yn y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar eu bywyd pob dydd a'r byd y maent yn byw ynddo.

Pob blwyddyn mae Barnardo's yn gweithio gyda dros 100,000 o blant a phobl ifanc, yn ogystal â'u teuluoedd, eu gofalwyr a'u cymunedau. Ein nod yw herio'r anfanteision a'r anghyfiawnder y maent yn eu hwynebu, atal allgau cymdeithasol a gwneud y gorau o'r cyfleon sydd ar gael iddynt. Rydym yn credu fod gan bob plentyn hawl i:

- iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol da
- cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod
- cael chwarae, amser hamdden, addysg a datblygu sgiliau bywyd
- cymryd rhan yn y gymuned maent yn byw ynddi.
- bod yn rhydd rhag yr anfanteision a achosir gan dlodi.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod cyfraniad a safbwyntiau plant a phobl ifanc yn sail i bob agwedd o'n gwaith ac i weithio gyda hwy i sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed gan y llywodraeth, llunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau eraill. Derbynnir bellach fod annog plant a phobl ifanc i gyfranogi yn gallu:

- helpu i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol
- cynorthwyo plant i ddatblygu eu sgiliau dinasyddiaeth eu hunain
- rhoi gwedd werthfawr i lunwyr polisi ar lefelau lleol, cenedlaethol a DU gyfan.

Mae llywodraeth y DU wedi cymryd sawl cam sydd wedi eu cynllunio i wella eu cysylltiadau gyda phlant a phobl ifanc a rhoi gwell cyfle iddynt gyfranogi mewn materion sy'n effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys penodi Gweinidog dros Blant a sefydlu Bwrdd Plant a Phobl Ifanc a Chomisiynwyr Plant yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban, gyda chynlluniau i benodi Comisiynydd yn Lloegr yn 2005. Ond gellid cyflawni llawer mwy trwy wrando ar blant a phobl ifanc, gan eu cynnwys ar bob lefel, ar draws pob sector ac adrannau'r llywodraeth a rhoi sylw teg i'w barn a'u safbwyntiau.

Yn 2001, cyhoeddodd Barnardo's yr adroddiad: *Whose government is it anyway?* a oedd yn rhoi barn dros 80 o blant a phobl ifanc am eu bywydau a'r polisïau a'r deddfau sy'n effeithio arnynt. Yn ystod 2004 buom yn ymgynghori ag amrywiaeth llawer ehangach o blant a phobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llais dros 130 o blant a phobl ifanc rhwng 6 a 22 oed, o bob math o gefndiroedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau ym mhob rhan o'r DU. Mae'r lleisiau hyn yn profi fod gan blant a phobl ifanc ddiddordeb mewn 'gwleidyddiaeth' wedi'r cwbl. Fel oedolion, mae'n rhaid i ni wrando a chymryd sylw o'u negeseuon.

Gwleidyddiaeth, gwleidyddion a llywodraethau

Mae gan y plant a phobl ifanc a fu'n mynegi eu safbwyntiau syniadau pendant am yr hyn sydd yn eu tyb hwy'n gwneud gwleidydd 'da': roedd tegwch a'r gallu i ymddiried yn cael eu cyfrif fel nodweddion pwysig. Roedd ganddynt syniadau diddorol ar sut y gallai llywodraethau greu gwell cysylltiadau gyda phlant a phobl ifanc.

'Mi fyddai (gwleidydd) am weld pobl yn cael eu trin yn deg'
11 oed, Hull

'Byddant yn siarad mewn ffordd falch a chryf'
12 oed, Hull

'Ymddiriedaeth – mae'n rhaid i chi ymddiried yn eich ffrindiau felly dylech fedru ymddiried mewn gwleidydd'
13 oed, yr Alban

'Ni ddylai wneud gwahaniaeth os oes ganddynt (gwleidyddion) anabledd'
8 oed, Blackpool

'Rhywun nad ydynt yn credu eu bod yn well na phawb arall'
16 oed, Lerpwl

'Dylent feddu ar safbwyntiau gwahanol, yn yr un ffordd ag y mae gan chwiorydd safbwyntiau gwahanol ar bethau, ond maent yn ffrindiau ac yn ymddiried yn ei gilydd, ond er hynny maent yn bobl wahanol'
13 oed, yr Alban

'Yn gwrando ar bawb – gan gynnwys pobl ifanc'
12 oed, Cymru

'Ni ddylent fod yn feirniadol o bobl eraill'
10 oed, Cymru

'Maent (y llywodraeth) yn dweud wrth bobl ifanc beth ddylent ei wneud â'u bywydau; dylent sgwrsio gyda'r bobl ifanc am yr hyn maent am ei wneud gyda'u bywydau'
14 oed, Gogledd Iwerddon

'Dylid rhoi mwy o bwyslais ar yr hyn sy'n gywir ym marn pawb, ac nid yn eu barn hwy yn unig'
15 oed, Cymru

'Maent fel melin bupur… maent yn mwydro ar y teledu drwy'r amser'
7 oed, Tamworth

Mae awgrymiadau'r bobl ifanc ar sut y dylai gwleidyddion ymdrechu i gysylltu â hwy'n adlewyrchiad o'r byd yr ydym yn byw ynddo – mae'r defnydd o dechnoleg a'r cyfryngau ar gyfer cyfathrebu mor gyfarwydd bellach. Mae'r syniadau hyn yn dangos sut y gellid eu defnyddio mewn ffordd benodol i wrando ar blant.

'Dylid gallu defnyddio nifer o ffyrdd i gysylltu â hwy, fel dros y ffôn neu'r rhyngrwyd i bobl na all fynd atynt'
14 oed, Cymru

'Pan fyddwn yn gwneud ein gwaith cartref – mae'n rhaid i ni wneud ymchwil, mynd ar y rhyngrwyd a phethau felly – pam na allant hwy wneud yr un peth (i ddysgu mwy am y pethau sy'n bwysig i bobl ifanc)?'
14 oed, Cymru

'Gallent ddefnyddio negeseuon testun i holi ein barn am wahanol bethau'
9 oed, Gogledd Orllewin Lloegr

'Dylent ymdrechu i wneud pethau gwleidyddol yn fwy diddorol – eu rhoi ar Bo Selecta – ceisio cael darluniau yn ein pennau o'r hyn sy'n bwysig'
15 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

Ond mae'r bobl ifanc yn pwysleisio hefyd y dylai gwleidyddion wneud mwy o ymdrech i ddeall realiti eu bywydau.

Dylent grwydro mwy o gwmpas y trefi a dod i ddeall sut y mae pobl eraill yn byw'
16 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Pam na wnawn nhw 'gyfnewid bywyd' gyda pherson ifanc am ddiwrnod?'
17 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Gallent brofi'r pethau sy'n effeithio ar bobl ifanc, defnyddio cadair olwyn neu fyw ar fudd-daliadau am wythnos'
17 oed, Lerpwl

Gallant hefyd weld pa mor bwysig yw cael rhywun i siarad ar ran plant a phobl ifanc.

'Mae'n cymryd gormod o amser (i siarad â phobl ifanc); nid oes ganddynt amser i wneud hynny'n iawn. A fyddai modd iddynt gael rhywun i wneud hynny ar eu rhan ac yna roi gwybod i'r gwleidyddion yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud?'
14 oed, Lerpwl

Iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol da

Roedd y plant a'r bobl ifanc a fu'n rhannu eu safbwyntiau gyda ni'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd ac amgylchiadau teuluol. Mae rhai'n gofalu am riant sâl neu anabl, daw rhai o deuluoedd ar incymau isel iawn ac mae rhai'n rhieni eu hunain. Mae ganddynt farn gref ar bob math o faterion yn ymwneud â lles. Maent yn ymwybodol iawn o gyffuriau ond maent hefyd yn bryderus ynglŷn ag ysmygu ac alcohol; maent yn dweud pa mor hawdd yw cael gafael ar sylweddau a pham fod pobl ifanc yn eu defnyddio. Maent yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r pwysau y mae teuluoedd yn eu hwynebu ac nid yn unig y maent yn gofyn cwestiynau ond mae ganddynt hefyd syniadau ynglŷn â beth ellid ei wneud i ddarparu cymorth mwy effeithiol i deuluoedd. Mae nifer o'r plant a'r bobl ifanc yn anabl eu hunain ac mae gan eraill aelodau o'u teulu sy'n anabl neu â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol.

Dangoswyd yn eglur pa mor hawdd oedd cael gafael ar gyffuriau

'Mi wnes i ddal ati i fynd i'r ysgol ond fedrwn i ddim cerdded o un wers i'r llall heb i rywun ofyn i mi a oedd gen i gyffuriau neu smoc neu rywbeth.'

14 oed, Hull

'Dwi'n credu fod gan y ffaith fod y bobl yma'n smocio cyffuriau ac yn yfed caniau rywbeth i'w wneud â'u magwraeth ac weithiau am eu bod yn teimlo'n isel, ac mae rhai pobl ifanc yn meddwl eu bod yn edrych yn galed os ydynt yn cael eu gweld yn ysmygu o gwmpas y lle.

12 oed, Hull

Mae gan y plant a'r bobl ifanc farn bendant iawn pam fod cyffuriau ac alcohol yn cael eu camddefnyddio – fel dihangfa rhag bywyd anhapus, oherwydd bod pobl eraill yn eu defnyddio neu oherwydd syrffed neu brinder pethau eraill i'w gwneud.

'I raddau helaeth mae pobl ifanc yn yfed er mwyn ymddangos yn hŷn, oherwydd dyna beth mae oedolion yn ei wneud.'

18 oed, Llundain

'Mae'n bosibl y byddai pobl ifanc yn yfed llai ac yn defnyddio llai o gyffuriau pe bai mwy o gyfleusterau ar gael a mwy o bethau i'w gwneud.'

12 oed, Cannock

Mae ymateb y llywodraeth bresennol i'r broblem gyffuriau'n amrywio o driniaeth orfodol i ddedfrydau mwy llym a gwell ffynonellau gwybodaeth fel y wefan 'Talk to Frank' sy'n cynnig gwybodaeth a llinell gymorth. Mae'r plant y buom ni'n siarad â hwy'n bendant eu barn ynglŷn â'r hyn a ddylai gael blaenoriaeth.

'Hoffem gael mwy o wybodaeth o safon uchel – nid cael pobl yn dweud wrthym am ddweud 'na' drwy'r adeg'"

17 oed, Llundain

'Dylid gwario mwy ar ddal y gwerthwyr mawr – y rhai sy'n dod â'r stwff i mewn – a llai ar roi defnyddwyr a rhai sy'n gaeth i gyffuriau yn y carchar, mae nhw'n dal i gael gafael ar gyffuriau yn y carchar'

16 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Gwell llefydd i fyw i bobl ifanc ddigartref, nid hosteli, mae'n anodd cadw oddi wrth gyffuriau ac allan o drwbl os ydych chi'n byw mewn lle ofnadwy. Mae'n rhaid i mi fod allan rhwng 9am a 5pm a does unman i fynd na dim byd i'w wneud'

16 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Gwell cefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gyffuriau ac alcohol'
10 oed, Llundain

'Dim ysmygu o gwbl ar fysiau'
8 oed, Blackpool

Mae'r ddadl ar ofal plant a chefnogaeth i rieni'n cael ei hadlewyrchu. Mae plant yn teimlo'n gryf dros ben y dylai rhieni gael dewis a ydynt am weithio neu aros gartref ac y dylai gwell cefnogaeth fod ar gael i rieni ar adegau pan eu bod yn wynebu problemau.

'Dylai rhieni gael eu cefnogi os ydynt am aros gartref (ac edrych ar ôl eu plant)'
13 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Dylid cael mwy o bobl gyda chymwysterau perthnasol ac a all edrych ar ôl plant, os oes angen seibiant ar rieni ac nad ydynt yn gwybod ble i fynd – gallent ffonio rhif lle byddai help ar gael'
12 oed, Tamworth

Dros y ddegawd ddiwethaf rhoddwyd mwy o bwyslais ar ymgynghori a gwrando ar blant sydd mewn gofal. Datblygwyd sawl cynllun i roi sylw i hyn, gan gynnwys y gofyniad fod plant yn cymryd rhan yn eu hadolygiad, cyllid gan y Quality Protects Programme tuag at waith cyfranogol, a deddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl eiriolaeth wrth wneud cwyn. Ond mae'n amlwg er hyn nad yw plant yn teimlo fod eu llais yn cael ei glywed.

'Os nad ydych chi'n byw gyda'ch rhieni dylech gael yr hawl i'w gweld. Ni ddylai'r llywodraeth gael dweud na chewch chi ddim gweld eich rhieni; chi ddylai gael penderfynu achos rydych yn perthyn iddyn nhw. Ac mae'n brifo'n ofnadwy os nad ydych yn cael eu gweld ar achlysuron arbennig. Roedd fy mrawd yn cael ei ben-blwydd ddydd Sadwrn diwethaf ac ni allwn ei weld.'
14 oed, Belfast

'Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol wrando mwy – a chymryd sylw o'r hyn y mae plant yn ei ddweud a pheidio ystumio'r hyn sy'n cael ei ddweud – a siarad trwom ni.'
14 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

Mae plant a phobl ifanc anabl yn dal i deimlo eu bod yn gorfod delio ag agweddau a dulliau sydd heb fod yn ddigon hyblyg.

'Mynediad i ysgolion – mae hynny'n golygu mwy na rampiau a phethau tebyg, mae hefyd yn golygu agweddau'r staff a'r plant'
18 oed, Gogledd Orllewin Lloegr

'Mae'n golygu mod i'n gorfod ffitio i mewn gyda fy ngofalwyr (gofal cartref yng nghartref y person ifanc) ac addasu i'w hamserlen hwy yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Os na allant hwy fod yn hyblyg a chwrdd â fy anghenion i yna mae'r holl beth yn ddiwerth – ac mi rydw i'n teimlo wedi fy ynysu fwy fyth.'
17 oed, Belfast

'Siopau gwell – mae Deddf newydd wedi'i chyflwyno ond er hynny nid yw pobl anabl yn medru mynd i mewn i bob siop.'
12 oed, Cymru

Ffeithiau a ffigurau

Alcohol

- mae'r bobl ifanc 11 i 15 oed sy'n yfed yn yfed cyfartaledd o 10.5 uned yr wythnos
- mae goryfed cymdeithasol yn dod yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc yn y DU
- mae 18 y cant o bobl ifanc 11 i 15 oed sy'n yfed yn gwneud hynny o leiaf unwaith yr wythnos
- erbyn eu bod yn 16, mae 94 y cant o bobl ifanc wedi yfed alcohol
- mae ymchwil yn awgrymu fod dyluniad, defnydd pacio a marchnata diodydd yn apelio at bobl ifanc a bod 'alcopops' yn aml yn eu cyflwyno at yfed rheolaidd
- mae arolygon yn dangos fod 29 y cant o rai 11 oed, 37 y cant o rai 12 oed, 41 y cant o rai 13 oed, 55 y cant o rai 14 oed a 67 y cant o rai 15 oed wedi prynu alcohol yn anghyfreithlon
- mae arolwg o iechyd meddwl pobl ifanc yn eu llencyndod wedi dangos fod yfed trwm rheolaidd a goryfed cymdeithasol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o broblemau gan gynnwys damweiniau, trais, ymddygiad gwrthgymdeithasol, perfformiad gwael yn yr ysgol a phroblemau iechyd corfforol a meddyliol
- yn 15 oed, mae plant sydd â rhiant gyda phroblemau alcohol yn wynebu mwy o risg o ddioddef o anhwylder seiciatrig
- mae plant sydd â rhieni sy'n yfwyr trwm yn fwy tebygol o fod yn yfwyr trwm eu hunain[1]

Cyffuriau

- canabis yw'r sylwedd anghyfreithlon mwyaf cyffredin, gyda 44 y cant o bobl ifanc 16 i 19 oed wedi ei ddefnyddio
- mae 8 y cant o rai 11 oed wedi defnyddio sylwedd anghyfreithlon yn y flwyddyn ddiwethaf (2003)
- mae 38 y cant o rai 15 oed wedi defnyddio sylwedd anghyfreithlon yn y flwyddyn ddiwethaf (2003)[2]

Ysmygu

- mewn arolwg diweddar, cyfaddefodd 40 y cant o bobl ifanc 13-17 oed eu bod wedi ysmygu yn y flwyddyn ddiwethaf (2003)[3]

Byw oddi cartref

- yn 2003, roedd 74,646 o blant mewn gofal yn y DU

Anabledd a mynediad

- mae rhan 3 y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau, pan fo hynny'n rhesymol, i ddileu rhwystrau ffisegol i bobl anabl, gan gynnwys mynediad i drafnidiaeth a thai
- mae canran cyfartalog y disgyblion gydag anghenion arbennig mewn ysgolion prif ffrwd yn 2.7 y cant[4]
- mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, yn gosod dyletswydd ar bob ysgol ac awdurdod lleol i gynllunio i wella cyfle i blant anabl dros amser fanteisio ar gwricwlwm yr ysgol a'r amgylchedd ffisegol[5]
- Gwelodd arolygon ysgolion Ofsted yn 2003 nad oedd gan dros hanner yr ysgolion gynlluniau mynediad ar gyfer disgyblion anabl ac o'r cynlluniau hynny a oedd ar gael, roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar yr adeilad yn unig[6]

Diogelwch a rhyddid rhag niwed ac esgeulustod

Er nad yw'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geiriau fel 'amddiffyn plant' neu 'camdriniaeth', mae ganddynt farn bendant ynglŷn â pham fod camdriniaeth ac esgeulustod yn digwydd. Maent hefyd yn bryderus am ddiogelwch yn gyffredinol, megis eu perthynas gyda'r heddlu a thrafnidiaeth hwylus.

Nid yw'r plant yn derbyn y ddadl fod rhieni sy'n cam-drin yn rhieni 'gwael'. Maent yn derbyn y bydd y rhan fwyaf o rieni eisiau edrych ar ôl eu plant yn iawn, ond bod eu hamgylchiadau yn eu rhwystro rhag gwneud hynny.

'Nid yw'n golygu eu bod yn rhieni gwael drwy'r amser, weithiau maent yn gwneud y pethau hyn (cam-drin ac esgeuluso) am eu bod wedi cyrraedd pen eu tennyn a'u bod angen rhywun i'w helpu.'
13 oed, Cannock

Roedd diogelwch ar y stryd yn fater pwysig. Nid yn unig y bu'r bobl ifanc yn trafod ochr gorfforol y pwnc ond hefyd yr hyn oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Dylem nodi mai'r hyn sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo fwyaf diogel pan eu bod allan yw bod yn rhan o grwp. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, mae grwpiau o bobl ifanc yn cael eu gweld fel bygythiad neu fel criw sy'n debygol o achosi trwbl ac mae'r ddeddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol yn caniatáu i grwpiau o ddau neu ragor o bobl ifanc gael eu gwasgaru. Er bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn sylweddoli fod rhai yn achosi helynt, maent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel bwch dihangol ar adegau.

'Nid oes golau yn yr arosfa bws ac mae'n gallu bod yn lle annifyr yn y gaeaf'
13 oed, Tamworth

'Nid oes arna i ofn cerdded adref (o'r clwb ieuenctid) achos fod fy ffrindiau efo fi bob tro – bydd tua saith ohonom fel arfer'
12 oed, Tamworth

'Rydym yn griw mawr o bobl ifanc ac mae'n siŵr ein bod yn gallu ymddangos yn fygythiol, ond dim ond sefyllian o gwmpas ydan ni – tydan ni ddim yn gwneud unrhyw beth drwg – ac mae'r siopwr yn gweiddi arnom i symud oddi yno – nid yw'n fodlon siarad efo ni.'
15 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Mi hoffwn i petai mwy o gyfiawnder i bobl ifanc, rydym i gyd yn cael ein trin fel troseddwyr ond mae hynny'n bell o'r gwir'
17 oed, Llundain

Mae bwlio mewn ysgolion wedi gwaethygu er gwaethaf nifer o strategaethau a chynlluniau gwrth-fwlio fel 'Wythnos Gwrth-Fwlio'. Mae plant a phobl ifanc yn parhau i deimlo nad oes digon yn cael ei wneud, neu nad ydynt yn mynd ati

'Yn aml nid yw pobl yn gwneud digon i gael gwared â bwlio (yn yr ysgolion). Mae plant yn cael ffrae ond dylid cadw golwg fanylach ar fwlis a chael cynlluniau cyfeillio.'

12 oed, Hull

yn y ffordd orau i ddatrys y broblem. Maent yn sôn am ddulliau sydd wedi llwyddo ac eraill sydd wedi methu.

'Nid yw eu gwahardd yn mynd i weithio – pan fyddant yn mynd i ysgol arall byddant yn dechrau o'r dechrau eto. Dylent wneud mwy o ymdrech i geisio deall pam eu bod yn ymddwyn fel hyn.'
15 oed, Gogledd Iwerddon

'Roedd pobl a oedd yn bwlio pobl eraill, roedd ganddyn nhw gapiau efo'r gair 'Buddy' arnyn nhw ac roedd y Bydis yn gyfrifol am edrych ar ôl y plant a oedd yn cael eu brifo ac roedd hynny'n ei gwneud yn haws i'r ysgol ddelio efo bwlio am nad oedd cymaint ohonyn nhw o gwmpas oherwydd y Bydis'
13 oed, Hull

Roedd pobl ifanc yn awyddus iawn i weld gwaith plismona 'go iawn' a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd cysylltiadau da a bod cyfraith a threfn yn angenrheidiol er mwyn diogelwch pawb.

'Dylai nhw (yr heddlu) wybod lle mae pobl yn byw. Mae'r heddlu yn dda yma, maent yn gwybod lle'r ydan ni'n byw a beth yw'r problemau yma'
13 oed, yr Alban

'Gawn ni fwy o heddlu ar y strydoedd – rhai go iawn nid wardeniaid'
17 oed, Llundain

'Mwy o blismyn croenddu ac Asiaidd'
15 oed, Llundain

'Mae'n rhaid cael rheolau, os na cheid rheolau byddai'r holl le'n mynd yn wallgof. Os na cheid rheolau byddai pobl yn cael eu llofruddio a phob math o bethau. Mi wn i fod hynny'n crap ond mae'n rhaid cael cyfraith'
14 oed, Gogledd Iwerddon

Ffeithiau a ffigurau

Bwlio

- mewn arolwg gan Childline, dywedodd hanner disgyblion ysgolion cynradd a dros un o bob pedwar o ddisgyblion ysgolion uwchradd eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf[7]
- mae mymryn dros draean (35 y cant) y disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd yn dweud bod arnynt ofn cael eu bwlio. Mynegodd 43 y cant o ferched a 42 y cant o bobl ifanc Asiaidd bryder[8]
- bydd un o bob tri o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn cael eu bwlio rywbryd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol[9]

Teuluoedd

- yn y flwyddyn ddiwethaf (2003-04) derbyniodd gwefan Parentline Plus 297,000 o ymweliadau

Cyfleon i chwarae, amser hamdden, addysg a datblygu sgiliau bywyd.

Mae gan yr holl blant a phobl ifanc rywbeth i'w ddweud am eu cyfleon chwarae, hamdden ac addysg. Mae ganddynt farn ar y dadleuon presennol sy'n ymwneud ag addysg prif ffrwd neu arbennig i blant anabl, prinder mannau chwarae a'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion. Mae'r cysylltiadau rhwng diflastod a chodi trwbl hefyd yn cael eu cydnabod gan y plant a phobl ifanc.

'Dylid cael mwy o grwpiau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc er mwyn eu helpu rhag mynd i drwbl'
12 oed, Cymru

'Mae'r bechgyn mwyaf ar ein stad ni'n sefyllian o gwmpas ac yn creu helynt, ond does dim byd iddynt ei wneud – mae'r clwb ieuenctid wedi cau ac mae'n rhaid i chi dalu am bob dim arall.
13 oed, Cannock

'Allwch chi adeiladu parc sglefrfyrddio yn Grange Park oherwydd mi fyddai hynny'n cadw pobl ifanc rhag mynd i drwbl?'
9 oed, Blackpool

'Rwy'n credu y dylai'r llywodraeth wario mwy ar bethau ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau oherwydd yr ydym yn clywed cymaint o gwynion am fandaliaeth a phethau tebyg ac mae hynny'n digwydd am nad oes gan bobl bethau gwell i'w gwneud na bod allan ar y stryd, maent yn malu pethau am eu bod wedi diflasu'
12 oed, Hull

'Rhowch rywbeth i'w wneud i bobl ifanc, yn enwedig mewn trefi gwledig, fel parc sglefrio neu ddisgos i bobl ifanc. Bydd rhaid gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n ddrud; mae pobl ifanc yn cael eu gorfodi i grwydro'r strydoedd am mai dyna'r unig le sydd ganddyn nhw i gyfarfod.'
Grwp o bobl ifanc 12-15 oed, Dundee

Mae rôl ysgolion wrth ddarparu addysg a chefnogaeth ehangach, yn hytrach na gwaith academaidd yn unig, yn cael ei werthfawrogi gan blant. Maent yn poeni fod penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar addysg yn cael eu gwneud heb ymgynghori digonol ac mae annibyniaeth gynyddol ysgolion yn ei gwneud yn debygol y bydd y cyfleon i ymgynghori'n llai fyth yn y dyfodol.

'Mi hoffwn i gael gweithio gyda phobl ifanc yn y diwedd ac mi hoffwn weld pethau'n newid - rhoi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau; gwella gwasanaethau iechyd rhywiol a sicrhau fod pob person ifanc yn derbyn addysg dda'

20 oed, Swydd Hertford,
(codwyd o *Young People's Voice*, Barnardo's 2004)

'Rwy'n credu mai'r pethau sy'n bwysig i bobl ifanc yw addysg, rhywun i siarad â hwy yn ystod y gwyliau ac addysg rhyw ac iechyd'
14 oed, Llundain

'Maent yn cau un o'n hysgolion a threfnwyd cyfarfod ond ni chafodd ei drefnu'n iawn ac nid oedd pobl yn gwybod amdano. Mae'n golygu y bydd rhaid i bawb fynd i'r un ysgol ac nid yw pawb eisiau gwneud hynny – mae'n ffordd hir i deithio a bydd yn anodd i rai o'r plant ei chyrraedd.'
12 oed, Tamworth

'Dylem aros yn yr ysgol tan 4.30pm yn hytrach na gwneud gwaith cartref'
13 oed, Cannock

Mae plant a phobl ifanc anabl yn teimlo eu bod yn cael ymateb a gwasanaeth gwahanol i'r plant eraill a bod hynny'n eu rhwystro rhag dod ymlaen mewn addysg a hyfforddiant.

'Pan fydd rhai pobl ifanc yn gadael ysgol arbennig byddant yn mynd at yr asiantaeth hyfforddi, byddant yn dod o hyd i leoliad i'r rhai heb anabledd ond byddant yn gadael i'r bobl anabl ddod o hyd i'w lleoliad eu hunain. Felly mae'n rhaid iddynt ddelio â'r holl rwystrau a phroblemau mynediad ac os na allant ddelio â hynny, ni fyddant yn cael lleoliad.'
17 oed, Belfast

Pe bai ysgolion yn rhai cymysg byddai mwy o blant yn gwybod am anabledd; byddai'n herio ac yn newid agweddau pobl'
20 oed, Gogledd Orllewin Lloegr

'Ansawdd nid maint sy'n cyfrif, mae angen mwy o amser ar rai myfyrwyr ond dylai pawb gael y cyfle i ddysgu'
17 oed, Lerpwl

Ffeithiau a ffigurau

Gwasanaethau hamdden ac ieuenctid

- byddai gwasanaeth ieuenctid sy'n dangos 'arferion da' ac sy'n dod i gysylltiad â 125 o bobl ifanc yr wythnos yn costio £75,000 y flwyddyn i'w redeg.[10]
- dangosodd arolwg gan Achub y Plant o gynlluniau chwarae ar un stad yng Nghaerdydd mai dim ond 60 o lefydd oedd ar gael ar gyfer dros 3,000 o blant a phobl ifanc[11]

Gwaith yn y cymunedau

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adran hon yn dangos fod plant iau a phobl ifanc hŷn yn poeni am fywyd yn eu cymunedau. Mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bynciau sy'n codi'n gyson; mae plant a phobl ifanc yn poeni am effaith troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arnynt hwy, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mewn rhai achosion, maent yn teimlo y gellid gwneud mwy i ddeall y profiadau sy'n gwneud rhai plant yn agored i niwed ac sy'n eu harwain i gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Roedd ganddynt ddiddordeb hefyd yn yr amgylcheddau ffisegol y maent yn byw ynddynt a dywedwyd wrthym, mewn rhai ardaloedd, sut maent yn ceisio gwella pethau.

Mae plant a phobl ifanc yn poeni am eu hamgylchedd lleol; cafodd sbwriel, ailgylchu a derbyn cyfrifoldeb am wella eu hardal leol eu trafod. Roedd ganddynt enghreifftiau o'r hyn maent yn ei wneud eisoes a syniadau ynglŷn â'r hyn y dylai pobl eraill fod yn ei wneud

'Roedd graffiti ym mhob man, ond roedd peth ohono'n dda iawn, dylid cael wal neu rywle lle gallant ddal ati heb ddifetha popeth'
13 oed, Hull

'Os na wnewch chi edrych ar ôl yr amgylchedd, pwy wnaiff? A chi fydd yr un fydd yn cwyno pan fydd popeth yn dirywio.'
14 oed, Lerpwl

'Ydym, rydym yn ceisio sefydlu mudiad ieuenctid a bydd ar gael i wneud gwaith glanhau a phethau tebyg, a gobeithio y gallwn ddangos iddyn nhw nad yw pobl ifanc yn ddrwg i gyd os ydyn nhw'n fodlon rhoi'r cyfle i ni.'
14 oed, Belfast'

'Dylid cael rhagor o finiau ailgylchu'
11 oed, Caerffili

'Dylent gael pobl sy'n cerdded o amgylch y strydoedd yn casglu sbwriel.'
10 oed, Caerffili

Mae gan blant a phobl ifanc syniadau pendant ynglŷn â'r pethau y dylid gwario arian arnynt. Yn groes i'r farn gyffredin, nid yw'r syniadau'n rhai mawreddog ac nid ydynt yn disgwyl y cyfleusterau mwyaf modern, roeddent yn hytrach yn gofyn am fannau hamdden cyffredin a chafwyd syniadau ar sut y gellid gwario arian yn effeithiol.

'Mae'r sglefrwyr i gyd yn mynd i lawr i'r dref ac yn sglefrio o gwmpas Woolworth's a llefydd tebyg ac maent yn dechrau cael eu hel oddi yno. Felly beth mae nhw i fod i'w wneud?'
14 oed, Belfast

'Mae'r ganolfan siopa'n un newydd, dwi'n credu ei bod yn wastraff arian llwyr. Roedd dad a fi'n dweud mai dim ond siopau crand fydd yno, a beth yw'r pwynt cael siopau crand pan nad oes pobl grand yn yr ardal?'
14 oed, Belfast

'Mi hoffwn i ei wario (yr arian) ar y ffenestri a'r pethau eraill sydd wedi cael eu malu, a'i hadeiladu (y ganolfan hamdden) o'r newydd.'
7 oed, Tamworth

'Dylid cael ystafell neu rywle lle gallant fynd i falu gwydr a phethau felly – a chael cyfle i ddweud pam. Rhywle diogel fel na fyddant yn difetha'r ganolfan (gymunedol)'
12 oed, Tamworth

Mae cyfiawnder a throseddu'n uchel ar agenda'r plant a'r bobl ifanc y buom ni'n siarad â hwy: nid oeddent yn gweld carchar fel ateb i'r broblem.

'Dylid gwario arian ar adsefydlu, dylai carcharorion roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned – glanhau'r strydoedd neu rywbeth tebyg'
11 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Dylid gwario llai ar garcharu a mwy ar atal troseddu a chael pobl i beidio cymryd cyffuriau.'
16 oed, Gogledd Orllewin Lloegr

Mae cysylltiadau gyda'r heddlu o safbwynt troseddu a chyfiawnder yn cael eu hystyried yn bwysig. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo'n gryf nad ydynt yn cael eu trin â pharch gan yr heddlu.

'Ni ddylai'r heddlu weiddi ar bobl pan fyddant yn eu harestio, mae'n rhaid eu dal ond dylent (yr heddlu) ymddwyn yn rhesymol.'
11 oed, Hull

'Mae'n rhaid i rywun fod yn gyfrifol am roi'r gorchmynion. Ond nid yw plismyn yn bobl neis iawn yn y lle cyntaf, nag ydynt? Ac yna mae nhw'n cael iwnifform ac mae nhw'n cael dweud wrth bobl beth i'w wneud. Mi fyddai'n meddwl weithiau mai'r llywodraeth sy'n dweud wrthyn nhw 'mae'n iawn i chi fwlio pobl.'

13 oed, Lerpwl

Ffeithiau a ffigurau

Troseddu a chyfiawnder

- mae troseddu ymhlith pobl ifanc wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf[12]
- mae'r DU yn cadw mwy o blant o dan glo, a hwythau'n iau, am droseddau llai ac am gyfnodau hwy nag ymron unrhyw wlad Ewropeaidd arall. Ym 1992 cafodd mymryn dros 4 y cant o'r dedfrydau o gaethiwed eu gwneud ar blant o dan 12 oed, ond erbyn 2000 roedd y ffigur hwn wedi codi i bron 9 y cant[13]
- mae 80 y cant o'r plant sy'n cael eu caethiwo yn cael eu dal yng ngofal yr adran carchardai[14]
- yn 2003 yng Nghymru a Lloegr roedd ychydig o dan 3 y cant o swyddogion yr heddlu yn perthyn i leiafrifoedd ethnig. Ar lefel Uwcharolygydd, mae'r ffigur fymryn dros 1 y cant.[15] Yn yr Alban, roedd llai na 0.5 y cant o swyddogion yr heddlu o gefndir lleiafrifol ethnig.[16] Roedd poblogaeth canran y boblogaeth yn 2001-02 a oedd o gefndir lleiafrif ethnig yn 7.6 y cant[17]
- mae pobl groenddu chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu harchwilio gan yr heddlu na phobl wyn ac mae nifer y bobl Asiaidd sy'n cael eu harchwilio bron ddwbl nifer y bobl groenwyn.[18]

Anfantais tlodi

Mae'r holl blant yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng incwm eu teulu a'u profiadau a'u cyfleon eu hunain. Mae rhai'n poeni am eu teulu ac mae eraill yn sôn am eu profiadau eu hunain o ymdrechu i fyw ar lwfans hyfforddi neu mewn coleg.

Dangosodd adroddiad gan Barnardo's *Still Missing Out* a gyhoeddwyd yn 2003 pan fod rhieni'n ei chael yn anodd i brynu'r anghenion mwyaf sylfaenol fel llyfrau a phrydau bwyd, mae'n amhosibl bron iddynt dalu am bethau ychwanegol fel gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol a gwyliau. Bydd plant wedyn yn colli'r cyfleon i ddysgu a datblygu sydd ar gael i'w cyfoedion sy'n well eu byd.

"Rydw i'n credu fod ysgolion yn gofyn am ormod o arian gan rieni i brynu gwisg ysgol"
14 oed, Hull

'Ni ddylai prisiau ysgol fod mor uchel. Mae fy mam yn talu £25 yr wythnos am bethau fel cinio a llyfrau i mi a fy mrawd'
9 oed, Derby

'Byddai'n beth da i mam pe bai cinio ysgol am ddim'
6 oed, Derby

Mae'r DU yn gweld ei hun fel cymdeithas gyfoethog gyda systemau lles datblygedig, ond er hynny mae llawer o deuluoedd yn byw mewn tlodi ac nid yw rhieini'n cael cyfle i sicrhau dechrau da i fywyd eu plant. Roedd y plant a phobl ifanc yn sylweddoli pwysigrwydd buddsoddiad i deuluoedd ifanc er mwyn torri cylch tlodi.

'Dylid cael mwy o fudd-dâl plant ac arian ar gyfer rhieni sydd ar eu pen eu hun.'
14 oed, Caerffili

'Pan fydd gennych chi deulu sy'n ennill £1,000 yr wythnos ac un arall sy'n ennill dim byddant i gyd yn derbyn yr un faint o fudd-dâl plant – nid yw hynny'n deg'
12 oed, Caerffili

'Mae hynny'n rhywbeth nad yw'r llywodraeth yn ei ddeall, bod angen mwy o arian ar famau ifanc i helpu ei phlentyn pan gaiff ei eni'
14 oed, Belfast

'Roedd rhywun yn dweud ein bod yn mynd i gael cymhelliant i fynd i goleg, a fyddai'n golygu y byddem mewn gwell sefyllfa ariannol o fynd i goleg neu hyfforddiant nag y byddem pe baem yn ddi-waith – byddai hynny'n beth da.'

17 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

Ym 1999 cynhyrchodd y Social Exclusion Unit yn Lloegr a'r Strategy Action Team yn yr Alban ill dau adroddiadau yn amlinellu pryderon ynglŷn â nifer y bobl ifanc dros 16 oed nad oedd mewn addysg, hyfforddiant neu waith. Ers hynny mae cynlluniau fel y Fargen Newydd ac Entry to Employment wedi ymdrechu i gynyddu'r niferoedd hyn, yn enwedig ymhlith y bobl ifanc hynny sy'n ei chael yn anodd cael lle ar gwrs hyfforddi neu i gael gafael ar waith.
Mae'r bobl ifanc a gyfrannodd at y drafodaeth hon yn teimlo y gellid gwneud mwy i'w cynorthwyo.

'Rydym angen cymorth gan y llywodraeth yn enwedig i gael gwaith'

18 oed, Gogledd Iwerddon

'Dylai'r arian sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant fod yn uwch nag arian dôl a dylid cael mwy o lefydd fel hyn (cynllun hyfforddi Barnardo's)'

16 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

'Nid yw £40 yr wythnos o lwfans hyfforddi'n ddigon i fyw arno. Dwi'n derbyn fy mod yn cael budd-dâl tai am nad wyf yn gallu byw gartref ond ar ôl i mi dalu am y trydan a phethau felly a chostau bws prin fod gen i ddim ar ôl ar gyfer bwyd. Tydw ddim yn pigo ar bensiynwyr ond dwi'n siŵr fod rhywun wedi dweud na allant fyw ar lai na £100 yr wythnos, wel, sut ddylwn i allu gwneud hynny?'

17 oed, Gogledd Ddwyrain Lloegr

Ffeithiau a ffigurau

Tlodi

- Mae un o bob pedwar plentyn yn y DU yn byw mewn tlodi cymharol ac 17 y cant mewn tlodi absoliwt (heb yr anghenion mwyaf sylfaenol)[19]
- Mae dros 100,000 o blant yn y DU heb gartref parhaol[20]
- Nid yw plant o'r teuluoedd tlotaf yn cael yr un cyfleon â'u cyfeillion cyfoethocach. Maent yn fwy tebygol o dyfu i fod wedi'u heithrio'n gymdeithasol, o ddioddef problemau gyda chyffuriau neu alcohol neu i droseddu neu ddioddef troseddau[21]
- Mae 17.3 y cant o blant ysgolion cynradd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim ond dim ond 14.2 y cant sy'n ei hawlio. Mewn ysgolion uwchradd, mae 14.3 y cant yn gymwys ond dim ond 10.6 y cant sy'n ei hawlio[22]
- Mae cyfanswm incwm rhiant unigol gydag un plentyn yn £114.16 yr wythnos (sy'n cynnwys lwfans personol, credyd treth plant, premiwm teulu, lwfans plentyn a budd-dâl plant). Mae'r warant isafswm incwm ar gyfer pensiynwr/aig sengl yn £104 [23]
- Roedd pris cyfartalog tŷ yn y DU yn 2002 yn £128,300

Materion cyffredinol eraill

Nid yn unig yr oedd plant a phobl ifanc yn teimlo'n gryf dros ben am y pethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau; roedd ganddynt farn hefyd ar bob math o bynciau, materion rhyngwladol a diwylliannau eraill.

'Dylent geisio cael gair gyda'r ASau yng Ngogledd Iwerddon, i geisio dod â nhw at ei gilydd. Eu rhoi nhw i gyd mewn un ystafell a dweud wrthynt am anghofio'r gorffennol.'
17 oed, Gogledd Iwerddon

'Nid yw'n deg fod pobl â chroen tywyll yn cael eu harasio, nid oes bai arnyn nhw. Dim ond oherwydd bod lliw eu croen yn wahanol a'u bod yn siarad ieithoedd gwahanol - ni ddylid eu trin yn wahanol.'
12 oed, Hull.

'Pam na allant ddod at ei gilydd a siarad (yn hytrach na rhyfela.) Efallai na fyddai'n llwyddo ond o leiaf dylent wneud yr ymdrech. Mae gen i ffrind ac fe gawson ni ffrae, ond mewn un wers roedd rhaid i ni weithio efo'n gilydd ac roedd rhaid i ni wneud y gwaith.'
14 oed, Cymru

'Plîs daliwch ati i geisio dileu tlodi.'
14 oed, Swydd Efrog

'Gellir helpu pobl eraill mewn gwledydd eraill wrth i ni siarad â gwleidyddion o bob man'
grŵp o blant anabl, 14-22 oed, Belfast

'Mae'r Prif Weinidog wedi dweud llawer o bethau da am gyfle cyfartal, 'os gwnewch chi weithio'n ddigon caled, gallwch gyflawni unrhyw beth', mae'n ddamcaniaeth dda ond a fydd yn gweithio mewn gwirionedd?'
19 oed, Llundain

(codwyd o *Young People's Voice*, Barnardo's 2004)

'Ni allwn weld pwynt rhyfel, pam na allan nhw drafod y peth o amgylch bwrdd?'
pobl ifanc, 12-15 oed, Dundee

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod gan blant a phobl ifanc farn aeddfed, ddeallus a rhesymol ar faterion cymdeithasol, rhai y byddai llawer o oedolion yn eu rhannu ac yn cydymdeimlo â hwy. Mae teimlo'n ddiogel, delio â bwlio, troseddu a'r hyn sy'n digwydd mewn cymunedau yn bryderon sy'n uchel ar agenda'r llywodraeth hefyd. Nid yn unig y mae gan blant a phobl ifanc farn ar y pethau hyn, ond mae ganddynt hefyd syniadau, sy'n seiliedig ar eu profiadau personol, ynglŷn â'r hyn sy'n llwyddo i fynd i'r afael â'r pethau sy'n poeni pob un ohonom. Mae'n rhaid i'r llywodraeth wneud mwy i adeiladu ar y camau y mae eisoes wedi'u cymryd i greu cysylltiadau gyda phlant a phobl ifanc ac i wrando mwy ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Cyn diwedd 2005 bydd gan bob un o'r pedair gwlad Gomisiynydd Plant. Rydym yn galw ar bob gweinyddiaeth i fanteisio ar y cyfle hwn i dderbyn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei chyflawnder mewn polisïau, deddfwriaeth ac mewn ffordd ymarferol ym mhob rhan o'r DU.

Cyfeiriadau

1. Alcohol Concern (2003) Factsheet: *Young people's drinking.* www.alcoholconcern.org.uk/files/20040706_145136_young%20people%20factsheet%20-%20updated%20March%202004.pdf (darllenwyd 6 Rhagfyr 2004)
2. Boreham, R a McManus, S (2003) *Smoking, drinking and drug use among young people.* Llyfrfa Ei Mawrhydi, National Centre for Social Research, Llundain
3. Asthana,A (2004) *No drink please, we're teenagers.* The Observer, 17 Hydref 2004
4. Horton, C (gol) (2004) *Working with children.* Society Guardian, Llundain
5. Adran Addysg a Sgiliau (2002) *Accessible schools: summary guidance.* Adran Addysg a Sgiliau, Llundain
6. Ofsted (2004) *Special education needs and disability: towards inclusive schools.* Office for Standards in Education, Llundain
7. Childline (2004) *Bullying: information for teachers and professionals working with young people.* www.childline.org.uk/pdfs/info-bullying-professionals.pdf (darllenwyd 25 Hydref 2004)
8. MORI (2004) *Youth survey* Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc, Llundain
9. Oliver, C a Candappa, (2003) *Tackling bullying: listening to the views of children and young people.* Adran Addysg a Sgiliau, Llundain
10. Joseph Rowntree Foundation (2004) *Findings.* www.jrf.org.uk/knowledge/findings/costings/664.asp (darllenwyd 30 Tachwedd 2004)
11. Gill, O ac Wellington,T (2003) *Wish you were here: child poverty and exclusion in the summer holidays.* Barnardo's, Llundain
12. Y Comisiwn Archwilio (2004) *Youth justice: a review of the reformed Youth Justice system.* Y Comisiwn Archwilio, Llundain
13. Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc (2002) *Annual statistics 2001-2.* www.youth-justice-board.gov.uk/Publications/Scripts/prodView.asp?idproduct=79&eP=YJB (darllenwyd 6 Rhagfyr 2004)
14. Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc (2004) *Strategy for the secure estate for juveniles.* www.youth-justice-board.gov.uk/NR/rdonlyres/5D718928-7749-4FA9-BA29-67754FF0D81D/0/StrategyfortheSecureEstateforJuvenilesNov04.doc (darllenwyd 6 Rhagfyr 2004)
15. Y Swyddfa Gartref (2003) *Police officer strength: by rank, sex and ethnic group, at 31st March 2003.* www.statistics.gov.uk/STATBASE/Expodata/Spreadsheets/D7366.xls (darllenwyd 6 Rhagfyr 2004)
16. Gweithrediaeth yr Alban (2000) *Equalities in Scotland: ethnic minorities.* www.scotland.gov.uk/library3/society/equality/esem-00.asp (darllenwyd 25 Hydref 2004)
17. Swyddfa Ystadegau Gwladol (2002) *Regional trends United Kingdom.* Cyfeirnod 37 ONS. Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llundain
18. Y Swyddfa Gartref (2004) *Datganiad i'r wasg 220/2004.* www.homeoffice.gov.uk/pageprint.asp?item_id=991 (darllenwyd 30 Tachwedd 2004)
19. Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2004) *Households below average income 1995-62002-03.* Corporate Document Services, Llundain
20. Trysorlys ei Mawrhydi (2004) *Child Poverty Review.* Llyfrfa Ei Mawrhydi, Llundain
21. Child Poverty Action Group (2002) *Research Review: the persistence of poverty over time, Poverty* 112, t18
22. ibid
23. Swyddfa Ystadegau Gwladol (2004) *Average property prices.* www.statistics.gov.uk/STATBASE/Expodata/Spreadsheets/D7339.xls (darllenwyd 25 Hydref 2004)

Dywed Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Y bydd partïon yn sicrhau fod y plentyn sy'n medru ffurfio'i farn ei hun, yn cael yr hawl i fynegi'r farn honno yn rhydd ymhob achos sy'n effeithio'r plentyn, gyda barn y plentyn yn derbyn sylw haeddiannol yn unol ag oed ac aeddfedrwydd y plentyn.

'Os nad oes neb yn credu y gallwch wneud rhywbeth yna pam ddylen ni gredu y gallwn ni? Rhowch gyfle i ni'

14 oed, Cymru

Barnardo's

CYMRU

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG Ffôn 020 8550 8822
Elusen gofrestredig Rhif 216250 www.barnardos.org.uk

7170IH05